Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Talybont
# Ty Sbri
# Ysgol Gymunedol Talybont
# Talybont
# Ceredigion
# SY24 5HE

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth18-19, 2013**

**gan**

**Dorothy Morris**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 18/04/2013**

## Cyd-destun

Sefydlwyd Cylch Meithrin Talybont dros 40 o flynyddoedd yn ôl ac mae'n cyfarfod mewn caban ar safle'r Ysgol Gymunedol. Mae'r adeilad a'r cyfleusterau dysgu o ansawdd da.

Mae'r plant sydd yn mynychu'r lleoliad yn dod o'r pentref a'r ardal wledig o amgylch. Bernir nad yw'r ardal yn freintiedig nag ychwaith o dan anfantais economaidd a chymdeithasol.

Mae'r lleoliad yn darparu ar gyfer plant dwy i bedair oed. Mae ar agor am bedwar bore'r wythnos rhwng 9.00 a 12. 00 o'r gloch yn ystod y tymor ysgol. Yn ystod yr arolygiad, yr oedd 11 plentyn tair oed ar y gofrestr yn cael eu hariannu gan Bartneriaeth Plant Sir Ceredigion. Saesneg yw prif iaith y cartref i'r rhan fwyaf o'r plant. Ar hyn o bryd, mae ychydig iawn o blant ag anghenion dysgu ychwanegol yn mynychu ond nid oes neb o gefndir ethnig lleiafrifol.

Mae tair ymarferwraig arweiniol yn darparu ar gyfer dysgu'r plant. Maent yn brofiadol iawn ac mae'r rhan fwyaf yn meddu ar gymwysterau priodol ym maes addysg a gofal plant bach. Mae un ymarferwraig arall yn cynorthwyo plant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Cafodd y lleoliad ei arolygiad diwethaf gan Estyn yn Chwefror 2007a chan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ym Mehefin 2011.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- bod y plant yn gwneud cynnydd cyson yn eu dysgu o'u man cychwyn;
- bod y plant yn cymryd rhan weithredol yn eu dysgu ac yn mwynhau'r gweithgareddau;
- bod gan y rhan fwyaf o'r plant agweddau da at ddysgu;
- bod y plant yn derbyn ystod eang o brofiadau dysgu priodol a diddorol;
- bod yr addysgu yn dda; a bod
- y lleoliad yn darparu amgylchedd hapus, gofalgar a chynhaliol i'r holl blant.

**Rhagolygon gwella**

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- bod yr ymarferwyr arweiniol yn cynnig arweinyddiaeth gadarn;
- bod gwaith tîm effeithiol;
- bod yr ymarferwyr yn ymrwymedig i ddatblygiad addysgol a phersonol y plant;
- bod synnwyr cryf o ddiben i ddatblygu'r ddarpariaeth ymhellach;
- bod cynllun gwella priodol yn hyrwyddo datblygiadau buddiol ; a bod
- cysylltiadau cryf a chydweithio effeithiol iawn gydag ystod o bartneriaethau.

## Argymhellion

A1 Ymestyn medrau llythrennedd Cymraeg a medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r plant ymhellach.

A2 Ehangu'r ffocws ar ddatblygu medrau dysgu'r plant yn y cynllun gwella.

A3 Parhau i ddatblygu rôl y pwyllgor rheoli yn y gweithdrefnau arfarnu a blaengynllunio.

A4 Parhau i wella'r fynedfa i'r ardal ddysgu allanol.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sydd yn dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| **Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?** | **Da** |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae bron pob plentyn yn gwrando'n dda ar yr ymarferwyr a'u cyfoedion. Maent yn mwynhau gwrando ar storïau, a'r sgwrsio yn ystod amser cylch. Mae gallu rhai unigolion i drafod ar lafar yn y Gymraeg o safon dda iawn. Maent yn hyderus i gynnal sgwrs estynedig gydag oedolion ac yn dangos gafael sicr ar ystod eang o eirfa briodol. Mae'r rhan fwyaf o'r plant sydd yn ddysgwyr yn deall cyfarchion, cyfarwyddiadau a chwestiynau yn y Gymraeg ond ymatebion byr iawn a geir ar lafar.

Maent yn siarad yn rhwydd yn eu mamiaith wrth chwarae rôl a chydweithio mewn ystod o weithgareddau. Mae bron pob un o'r plant yn gwybod nifer dda o rigymau a chaneuon ar y cof ac yn eu hailadrodd yn gywir. Maent yn deall fod lluniau a phrint yn cyfleu ystyr ac yn adnabod eu henwau ar labeli. Mae gan lawer o'r plant wybodaeth ddatblygol o lythrennau'r wyddor. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ymarfer eu medrau ysgrifennu cynnar yn briodol trwy wneud marciau ar bapur, paentio, lliwio a thynnu llun.

Gwna'r mwyafrif o'r plant ddefnydd cyson o'u medrau rhif mewn gweithgareddau bob dydd. Maent yn deall geirfa fathemategol megis mawr a bach, trwm ac ysgafn, ac yn eu defnyddio'n gywir wrth chwarae. Mae bron pob un yn cyfrif yn gywir i o leiaf deg ac mae'r mwyafrif yn adnabod a chysylltu symbol a rhif yn gywir hyd at o leiaf pump. Maent yn adnabod ac yn enwi siapiau dau a rhai tri dimensiwn y gywir. Gall y rhan fwyaf ddidoli a threfnu ystod o wrthrychau cyfarwydd yn ôl maint, rhif a lliw. Wrth chwarae'n ddychmygol, dônt i ddeall bod angen arian i brynu nwyddau mewn siop a bod cloc yn dweud yr amser.

Mae'r mwyafrif o'r plant yn datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu sylfaenol yn briodol. Gyda chymorth, maent yn symud gwrthrychau ar y sgrin, recordio sylwadau a defnyddio'r camera digidol i dynnu lluniau. Maent yn dechrau rhoi cyfarwyddiadau i degan rhaglenadwy.

Gwna'r mwyafrif o'r plant ddefnydd effeithiol o'u medrau meddwl a datrys problemau mewn gweithgareddau adeiladau gyda blociau, cwblhau jig-sos a thasgau ymchwilio yn yr ardal allanol. Dangosant fedrau llawdriniol da wrth ddefnyddio offer torri, peintio a gludo. Gwnânt ddefnydd effeithiol o'u medrau creadigol i greu lluniau a phaentiadau lliwgar. Mae'r holl blant yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau canu a chreu cerddoriaeth.

Mae medrau personol a chymdeithasol y plant yn datblygu'n dda. Mae'r holl blant yn gyfarwydd â threfn y sesiwn ac yn derbyn cyfrifoldebau, megis 'helpwr y dydd' a thacluso ar ôl gweithgareddau, yn hyderus.

**Lles: Da**

Mae'r holl blant yn ymgartrefu'n dda yn y lleoliad ac yn ymgyfarwyddo'n gyflym â gweithdrefnau'r lleoliad. Maent yn ffurfio perthynas dda iawn gyda'r oedolion ac yn barod i ofyn am gymorth. Maent yn ymddwyn yn dda.

Mae bron pob un o'r plant yn dangos ymagweddau da at ddysgu. Maent yn gweithio'n ddiwyd ar dasg am gyfnod addas o amser ac yn cyd-chwarae'n hwylus gyda'i gilydd. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ymateb yn gadarnhaol i'r gweithgareddau ac yn ymgymryd â phrofiadau newydd yn hyderus. Mae'r plant i gyd yn gwneud cynnydd da yn eu gallu i weithio'n annibynnol.

Mae gan lawer o'r plant ymwybyddiaeth briodol o bwysigrwydd ymarfer y corff a bwyta'n iach. Dangosant ddealltwriaeth dda o'r angen am hylendid personol. Mae'r rhan fwyaf yn gallu gwisgo eu hunain ar gyfer gweithgareddau yn yr ardal allanol.

Mae medrau ac ymwybyddiaeth gymdeithasol y plant yn datblygu'n effeithiol drwy'r gweithgareddau dyddiol a thrwy'r ystod o brofiadau sydd yn deillio o'r bartneriaeth agos gyda'r ysgol a'r gymuned. Mae lefelau presenoldeb yn dda.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
| --- | --- |

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd adeiladol o fframweithiau cynllunio'r awdurdod addysg lleol sydd yn adlewyrchu gofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae'r cwricwlwm wedi'i gynllunio o dan ystod o themâu a thopigau sydd yn addas i ystod oed a lefel datblygiad y plant. Mae'r ymarferwyr yn cyfarfod yn wythnosol i drafod ac i gynllunio gweithgareddau'r wythnos i ddod. Mae hyn yn sicrhau defnydd effeithiol o amser a medrau'r ymarferwyr ac o'r adnoddau ffisegol sydd ar gael i'r lleoliad. Gwneir defnydd cyson o'r ardal ddysgu allanol ac mae hyn yn cyfoethogi profiadau'r plant yn sylweddol.

Ar y cyfan, mae'r ddarpariaeth yn cynnig cyfleoedd pwrpasol i ddatblygu medrau cyfathrebu, rhifedd a medrau ehangach y plant trwy'r profiadau dysgu a ddarperir. Er hynny, nid oes darpariaeth ddigonol bob amser i ymestyn medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r plant yn gyson.

Cymraeg yw cyfrwng naturiol bywyd a gwaith y lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn cynnig modelau iaith o safon dda i'r plant. Yn ystod sesiynau grŵp, mae cyfleoedd rheolaidd i'r plant wrando ar storïau, sgwrsio am eu gweithgareddau, chwarae rôl, ymuno mewn sesiynau canu, a defnyddio eu medrau marcio. Cyflwynir plant i draddodiadau a dathliadau Cymru yn effeithiol drwy weithgareddau megis dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Dydd Santes Dwynwen. Gwneir defnydd addas o'r gymuned ar gyfer ymweliadau ac o gyfraniad ymwelwyr, megis y deintydd a'r heddlu, at y themâu a astudir.

Darperir cyfleoedd addas i'r plant ddysgu am ddiwylliannau a thraddodiadau pobl eraill trwy weithgareddau megis dathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a dysgu am fywyd yn Fietnam wrth i'r lleoliad gefnogi plentyn yno.

Mae gweithgareddau pwrpasol yn datblygu dealltwriaeth y plant o'r angen i barchu a gofalu am yr amgylchedd a phopeth byw. Maent yn cynnwys gofalu am yr ieir, tyfu planhigion a llysiau, a dysgu am ailgylchu. Caiff y plant gyfleoedd da i flasu a choginio'r llysiau fel rhan o'u gweithgareddau, megis gwneud cawl ar gyfer dathliadau Dydd Gŵyl Dewi.

**Addysgu: Da**

Mae'r ymarferwyr yn gwbl ymwybodol o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Gwnânt ddefnydd effeithiol o ystod o ddulliau addysgu a llwyddir i gadw cydbwysedd addas rhwng gweithgareddau o dan gyfarwyddyd oedolion a'r gweithgareddau y mae'r plant yn eu dewis. Maent yn dilyn trywyddau chwarae'r plant yn effeithiol ac yn cynnig cefnogaeth a chyfarwyddyd pwrpasol sydd yn ymestyn y dysgu. Maent hefyd yn rhoi digon o gyfle i'r plant weithio'n annibynnol ac yn eu hannog i wneud dewisiadau a phenderfyniadau drostynt eu hunain. Yn yr arfer orau, mae'r defnydd o waith grŵp sydd wedi ei gynllunio gyda nod benodol yn ymestyn medrau'r plant yn gyson. Mae'r gweithgareddau wedi eu paratoi yn drylwyr a gwneir defnydd adeiladol o adnoddau i gynorthwyo'r addysgu a'r dysgu.

Mae'r ymarferwyr yn siarad â'r plant yn gyson ac yn manteisio ar bob cyfle i ddatblygu eu geirfa ac i gynorthwyo'r dysgwyr Cymraeg i ddod yn fwy hyderus wrth ddefnyddio'r iaith yn eu chwarae.

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth fanwl am gyflawniad a chynnydd y plant. Maent yn arsylwi'r plant yn ofalus wrth eu gweithgareddau chwarae ac yn cofnodi sylwadau perthnasol. Mae'r cofnodion yn cynnig darlun clir o gyflawniad y plant yn y chwe maes dysgu. Mae'r defnydd o'r wybodaeth a gesglir ar gyfer cynllunio'r camau nesaf yn y dysgu yn parhau i ddatblygu. Caiff rhieni eu hysbysu'n rheolaidd am ddatblygiad eu plant trwy drafodaethau anffurfiol ac adroddiadau ysgrifenedig priodol. Cwblheir ffurflenni trosglwyddo addas i'r ysgolion cynradd.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadau effeithiol i gefnogi iechyd a lles y plant. Mae'r gweithdrefnau sefydlu yn sicrhau bod plant yn ymgynefino'n gyflym yn y lleoliad. Caiff plant eu hannog i fwyta'n iach, i ofalu am eu hylendid personol ac i ymddwyn yn briodol.

Mae gweithdrefnau clir ar gyfer cefnogi plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Caiff anghenion y plant eu hadnabod yn gynnar a threfnir darpariaeth berthnasol are eu cyfer. Mae cysylltiadau clir gyda gwasanaethau ac asiantaethau arbenigol.

Mae gan y lleoliad bolisi priodol a gweithdrefnau ar gyfer diogelu. Mae'r ymarferwyr wedi derbyn hyfforddiant a deallant eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Mae profiadau dysgu perthnasol yn hyrwyddo datblygiad personol plant yn effeithiol, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n ofalus i hyrwyddo gwerthoedd pwysig megis gofal, cyfeillgarwch a pharch. Maent yn trin pob plentyn yn gyfartal gan eu hannog i gydweithio, rhannu a helpu eraill. Mae profiadau, megis sesiynau amser cylch, dathliadau diolchgarwch a Nadolig ac adrodd gweddïau, yn cyfrannu at ddatblygiad ysbrydol a moesol y plant. Mae'r cyfleoedd i gymryd rhan mewn cyngherddau i'r rhieni a'r cysylltiadau gyda'r ysgol yn hybu eu medrau cymdeithasol ymhellach.

Mae'r staff yn goruchwylio'r plant yn dda ar bob achlysur. Darperir cyfleoedd rheolaidd i'r holl blant ddefnyddio'r ardal ddysgu allanol ond nid yw'r agorfa yn hwyluso mynediad rhwydd iddynt.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff yr holl blant hawl gyfartal i'r cwricwlwm ac i'r holl weithgareddau a gyflwynir. Llwyddir i greu ethos cynnes a chroesawgar ar eu cyfer.

Mae nifer digonol o ymarferwyr sy'n meddu ar brofiad helaeth o weithio gyda phlant ifanc. Gwneir defnydd effeithiol o'u medrau wrth rannu dyletswyddau. Mae'r adeilad a'r cyfleusterau o ansawdd da a gwneir defnydd llawn o'r lle sydd ar gael drwy drefnu ardaloedd gweithgareddau o amgylch yr ystafell. Mae'r arddangosfeydd a samplau o waith y plant yn cyfrannu at greu amgylchedd deniadol.

Ar y cyfan, mae adnoddau digonol sydd yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi'r dysgu yn y dosbarth ac yn yr ardal ddysgu allanol. Mae'r adnoddau o fewn cyrraedd

y plant sydd yn hyrwyddo dysgu annibynnol. Er hyn, mae’r ystod a’r swm o adnoddau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn fwy cyfyng. Gwna’r ymarferwyr ddefnydd dychmygus o’r ardal allanol i ddarparu ystod eang o weithgareddau pwrpasol sydd yn cynnig cyfleoedd da iawn i’r plant ddatblygu eu medrau corfforol, ymchwiliol a chreadigol.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae’r ymarferwyr arweiniol yn dîm gweithgar sydd yn dangos ymrwymiad cryf i addysg a lles y plant. Maent yn rhannu gweledigaeth gadarn o ran gwerthoedd a disgwyliadau. Trwy drafod yn rheolaidd a chydweithio agos maent wedi sefydlu trefniadau clir ar gyfer pob sesiwn sydd yn sicrhau rhediad llyfn ac effeithiol. Caiff polisïau a gweithdrefnau eu rhoi ar waith yn briodol.

Mae’r person cofrestredig yn ymwelydd cyson ac yn cynnig cymorth da i’r ymarferwyr. Mae trefn fwy sefydlog yn datblygu o ran cyfrannu at y gweithdrefnau arfarnu. Mae’r pwyllgor rheoli yn gefnogol iawn ac yn cyfarfod yn rheolaidd. Mae ei rôl mewn prosesau arfarnu a blaengynllunio yn parhau i ddatblygu. Mae gan y lleoliad system briodol ar gyfer gwerthuso gwaith yr ymarferwyr.

Mae’r lleoliad yn rhoi ystyriaeth addas i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, gan gynnwys gweithredu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen, hybu medrau cyfathrebu Cymraeg y plant a sefydlu cysylltiadau effeithiol gyda’r ysgolion cynradd lleol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ymarferwyr arweiniol ddealltwriaeth sicr o gryfderau’r lleoliad ac o rai meysydd i’w gwella. Mae’r drefn sefydlog o gynnal cyfarfodydd staff ac o gyd-gynllunio yn arwain at welliannau yn y profiadau a gynigir i’r plant.

Mae’r ymarferwyr wedi cynnal arfarniad cytbwys o’r ddarpariaeth ac wedi nodi’u casgliadau yn eglur yn yr adroddiad hunan arfarnu. Mae’r cynllun gwella sy’n deillio o hyn yn adnabod nifer o feysydd priodol ar gyfer datblygu’r ddarpariaeth megis cynnig mwy o brofiadau i’r plant ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ac annog aelodau o’r pwyllgor rheoli i fynychu hyfforddiant perthnasol. Mae’r cynllun yn cynnwys amserlen, yn nodi’r cost ac yn gosod cyfrifoldebau. Mae’n cynnig arweiniad addas ar gyfer datblygu’r lleoliad ymhellach ond nid yw’r ffocws ar ddatblygu medrau’r plant yn ddigon eang.

Caiff agweddau ar y ddarpariaeth eu monitro’n rheolaidd gan athrawes ymgynghorol yr awdurdod addysg. Mae meysydd i’w datblygu yn cael eu cytuno a gweithredir strategaethau effeithiol sydd yn gwella’r ddarpariaeth. Ceisir barn rhieni yn briodol trwy drafod a thrwy holiaduron. Caiff agweddau ar y ddarpariaeth eu trafod ymhellach gyda swyddog Mudiad Meithrin.

Mae'r ymarferwyr yn mynychu cyrsiau addas ar ystod o agweddau sydd yn ymwneud ag addysg a gofal plant a gwnânt ddefnydd effeithiol o'r hyfforddiant megis y defnydd adeiladol o'r ardal ddysgu allanol i gynnig profiadau adeiladol i'r plant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r lleoliad yn cyd-weithio'n effeithiol iawn gydag ystod o bartneriaid sydd yn cyfrannu'n gynhyrchiol at ansawdd y ddarpariaeth a datblygiad plant.

Mae perthynas gadarn wedi'i sefydlu gyda'r rhieni a chadarnhawyd hyn yn ystod yr arolygiad. Darperir gwybodaeth berthnasol iddynt trwy lyfrynnau, cylchlythyron a'r hysbysfwrdd yn y cyntedd. Maent yn gwerthfawrogi'r polisi drws agored a'r cyfleoedd rheolaidd i drafod gyda'r ymarferwyr.

Mae gan y lleoliad gysylltiadau gwerthfawr gyda'r ysgol gynradd sydd yn cynnig cyfleoedd rheolaidd i'r ymarferwyr a'r staff i gyd drafod, rhannu adnoddau ac i'r plant ddefnyddio'r cyfleusterau dysgu megis y neuadd. Mae cyd-weithio effeithiol ar gyfer cynnal cyngerdd i'r ardal leol, mabolgampau a gweithgareddau Dydd Gŵyl Dewi. Mae cysylltiadau agos hefyd gydag ysgolion eraill yr ardal. Mae hyn yn hyrwyddo trosglwyddiad esmwyth i'r plant i gam nesaf eu haddysg.

Mae'r bartneriaeth gref gyda chorff llywodraethol yr ysgol, asiantaethau a mudiadau cymunedol yn sicrhau cefnogaeth ymarferol ac ariannol rheolaidd. Gyda'r cymorth hael hwn llwyddwyd, er enghraifft, i greu ardal ddysgu allanol sydd yn gaffaeliad i'r lleoliad. Cyfoethogir y ddarpariaeth yn sylweddol gan ymweliad wythnosol aelod o'r gymuned sy'n darparu gweithgareddau cerdd o safon uchel i'r plant.

Mae'r bartneriaeth adeiladol gyda'r pwyllgor rheoli, yr athrawes ymgynghorol a swyddog Mudiad Meithrin yn cynorthwyo gwaith y lleoliad ymhellach.

**Rheoli adnoddau: Da**

Caiff adnoddau eu rheoli a'u defnyddio'n effeithiol. Mae lefel staffio priodol i gyflwyno'r cwricwlwm ac i ddarparu ar gyfer lles a datblygiad y plant. Caiff yr ymarferwyr eu lleoli a'u defnyddio'n gynhyrchiol. Mae gan y lleoliad adnoddau digonol ar y cyfan a gwneir defnydd llawn ohonynt. Mae'r adeilad a'r ardal allanol yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda.

Mae gan yr ymarferwyr arweiniol a swyddogion y pwyllgor rheoli ddealltwriaeth glir o'r gyllideb ac mae penderfyniadau gwariant yn cael eu blaenoriaethu'n addas yn ôl anghenion y lleoliad. Gwneir defnydd rheolaidd o grantiau ac o fentrau codi arian er mwyn ychwanegu at yr adnoddau. Mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i’r holiadur i rieni

Nid oes sylwebaeth ar yr holiaduron rhieni oherwydd y nifer fach o ymatebion a dderbyniwyd.

### Ymateb i drafodaethau gyda phlant

Mae'r plant yn dweud eu bod yn hapus yn y lleoliad ac yn mwynhau chwarae a chymryd rhan ym mhob gweithgaredd.

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol –

| | |
|---|---|
| Dorothy Morris | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |